



## Cylch Meithrin Meini Bach

POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

Noder: mae'r manylion yn y Polisi hwn wedi ei selio ar ddogfennau Llywodraeth Cymru, sydd ar gael yma: [Published Assets \(assetbank-server.com\)](https://assetbank-server.com)

**Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael. Os oes unrhyw amwysedd am eiriad y polisi, y fersiwn Gymraeg sy'n gywir bob tro.**

Bydd **Cylch Meithrin Meini Bach** yn dilyn y pecyn polisiau a chanllawiau hwn a'i addasu yn ôl yr angen a'i adolygu yn flynyddol.

Bydd **arweinydd Cylch Meithrin Meini Bach** yn sicrhau fod pob aelod o staff yn deall y pecyn polisiau a chanllawiau hwn.

Bydd **Cylch Meithrin Meini Bach** yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gwybod am y pecyn polisiau a chanllawiau hwn trwy gymryd y camau canlynol:

1. Rhoi copi o'r polisi mewn cyntedd neu fan ble gall pobl ei weld
2. Rhoi'r polisi ar wefan y cylch

### ADOLYGWYD GAN

### DYDDIAD

(Enw)

(Llofnod)

(Pryd)

Mari Hannah Lanchbury

M.LANCHBURY

15/06/22

*(Awgrymir eich bod yn adolygu eich polisi yn flynyddol a hysbysu AGC, lle bo hynny'n, berthnasol os ydych wedi gwneud newidiadau iddo)*

## POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

## ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

**Cefndir**

Dibenion polisi Llywodraeth Cymru ar profi mewn lleoliadau gofal plant yng Nghymru yw ei fod yn ategu'r mesurau rheoli sylfaenol (megis cadw pellter cymdeithasol a gwisgo masg) sydd eisoes wedi'u rhoi ar waith i alluogi gofal wyneb yn wyneb i barhau. Er hynny, ni ddylid mynnu bod angen cael prawf, na chynnig prawf i'r rheini nad sydd yn gweithio yn y lleoliad yn rheolaidd ac mewn amgylcheddau 'wyneb yn wyneb' pan fydd y rhan fwyaf o'r gweithlu / plant yn y lleoliad.

**Profion Llif Unffordd (Lateral Flow Tests) Rheolaidd ar Gyfer y Gweithlu Blynyddoedd Cynnar**

Mae profion llif unffordd ar gael i lleoliadau gofal plant i'w dosbarthu i unrhyw ymarferwyr sydd am gymryd rhan. Mae cymryd prawf yn wirfoddol, ond rydym yn annog pob ymarferydd i fanteisio ar y cynnig.

Mae profion llif unffordd (Antigen) yn prosesu samplau swab o'r trwyn a'r gwddf. Mae'r ddyfais, sy'n edrych fel prawf beichiogrwydd yn y cartref, yn canfod protein (antigen) a gynhyrchir gan y feirws. Os yw'n bresennol yn sampl y person, bydd llinell liw yn ymddangos ar y ddyfais rhwng 20-30 munud ar ôl prosesu.

Mae unrhyw un sydd yn gymwys yn gallu cymryd prawf coronafeirws gartref ddwywaith yr wythnos. Mae'r profion hyn yn darparu canlyniad o fewn 30 munud, ac nid oes angen eu prosesu mewn labordy.

Mae pob ymarferydd sydd yn gweithio mewn lleoliad gofal plant yn gymwys i gael eu profi, ac mae hyn yn cynnwys:

- Ymarferwyr, Rheolwyr ac Arweinyddion y lleoliad.
- Staff glanhau'r lleoliad.
- Gofalwyr a staff cynnal a chadw sydd wedi eu cyflogi gan y lleoliad.

Nod y profion hyn yw profi unigolion nad ydynt yn dangos unrhyw rai o'r symptomau arferol er mwyn gweld a ydynt yn cario'r feirws heb wybod. Bydd hyn yn canfod ymarferwyr sydd yn cario'r feirws heb wybod yn gyflym fel y gallant hunanynysu.



## **Cylch Meithrin Meini Bach**

### POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

#### ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

Bydd hyn yn golygu bod llai o bobl yn dal y feirws ac yn lleihau'r effaith y mae'r coronafeirws yn ei chael ar ofal plant wyneb yn wyneb.

Cydnabyddir bod profion asymptomatig yn debygol o arwain at gynnydd mewn cyfraddau achosion i ddechrau, ond y bydd y cynnydd hwn yn debygol o ostwng ar ôl i'r rhai sydd wedi cael prawf positif hunainynysu ac wrth i'r cadwyni trosglwyddo cael eu torri.

Mae lleoliadau gofal plant wedi gweithredu'r mesurau rheoli a amlinellir yng nghanllawiau'r sector i lleihau'r risg o drosglwyddo'r coronafeirws. Bydd y profion hyn yn galluogi lleoliadau i lleihau'r risg ymhellach.

Mae'r drefn profion rheolaidd yn profi unigolion asymptomatig – y rhai heb symptomau'r coronafeirws. Os yw person asymptomatig yn cael canlyniad prawf positif drwy'r profion rheolaidd (gweler y cyngor pellach ar brofion positif isod), rhaid iddo hunainynysu yn unol â'r **canllawiau cyfredol** er mwyn osgoi trosglwyddo'r feirws ymhellach. O ganlyniad, bydd profion ddwywaith yr wythnos yn canfod achosion o'r coronafeirws na fyddai wedi dod i'r golwg fel arall, gan helpu i atal y coronafeirws rhag lledaenu yn y gymuned.

### **Sut Mae'r Broses Profi Unffordd yn Gweithio?**

Darperir pecynnau profion llif unffordd cartref ar gyfer lleoliadau addysg a gofal plant, y bydd modd i unigolion eu defnyddio ddwywaith yr wythnos, bob 3-4 diwrnod, cyn dod i'r gwaith neu'r lleoliad, ac yn ddelfrydol yn y bore. Nid oes gorfodaeth ar unrhyw un i wneud y prawf, ac ni fydd angen darparu tystiolaeth o ganlyniad negatif, na darparu tystiolaeth o fod wedi gwneud prawf, cyn gallu dychwelyd i'r gwaith yn gorfforol. Fodd bynnag, rydym wir yn annog pawb i fanteisio ar y ddarpariaeth.

Nid yw'r rhaglen brofi ar gyfer unigolion asymptomatig yn disodli'r polisi profi ar gyfer y rheini sydd â symptomau. Bydd disgwyl o hyd i unrhyw un sydd â symptomau, p'un a ydynt yn manteisio ar y system brofi ar gyfer unigolion asymptomatig ai peidio, fynd am brawf PCR a dilyn canllawiau Profi, Olrhain, Diogelu y GIG, gan hunainynysu, hyd nes y byddant wedi cael eu canlyniad.

## POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

## ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

**Mesurau Diogelu yn Erbyn COVID-19**

Rhaid i leoliadau ac unigolion barhau i ddilyn yr holl fesurau diogelu cyfredol – nid yw profion ar gyfer unigolion asymptomatig yn disodli'r rhain nac yn eu gwneud yn llai pwysig wrth reoli'r feirws.

Mae'n bwysig cofio mai haen ychwanegol yw'r profion hyn o ran y mesurau diogelu iechyd, yn ogystal â gorchuddion wyneb, cadw pellter cymdeithasol ac ati. Rhaid i bobl sy'n cael canlyniad negyddol gydymffurfio o hyd â mesurau diogelu perthnasol eu gweithle.

Mae'r prawf llif unffordd yn cadarnhau p'un a ydych yn heintus i bobl eraill. Y cyngor gwyddonol cyfredol yw y dylai unigolion sydd wedi'u brechu gymryd y profion o hyd yn yr un ffordd ag unrhyw un sydd heb ei frechu. Caiff y sefyllfa ei hadolygu'n rheolaidd, a rhoddir gwybod am unrhyw newidiadau yn y cyngor i leoliadau.

**Ni ddylai unigolyn sydd wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19 o brawf PCR cael ei profi fel rhan o'r cynllun hwn o fewn 90 diwrnod i gychwyn y symptomau neu'r prawf (os yn asymptomatig).**

**Sut Mae Cymryd Prawf Unffordd?**

Nid oes angen unrhyw hyfforddiant. Gallwch wneud y prawf eich hun, ac fe fyddwch yn derbyn cyfarwyddiadau clir gyda'r profion, ond yn gryno:

1. Golchwch a sychwch eich dwylo'n drylwyr
2. Agorwch y pecyn prawf (gan ofalu peidio â chyffwrdd â'r rhan feddal)
3. Agorwch eich ceg yn llydan. Defnyddiwch y swab i rwbio cefn eich gwddf yn gadarn bedair gwaith ar bob ochr
4. Tynnwch y swab allan o'ch ceg heb gyffwrdd â'ch dannedd, eich tafod na'ch gymiau
5. Rhowch y swab yn ofalus yn eich trwyn (2.5cm y tu mewn) a'i rwbio ar hyd leinin eich ffroenau 4-5 gwaith
6. Tynnwch y swab allan (gan ofalu nad yw'n cyffwrdd ag unrhyw beth)

### POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

#### ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

7. Rhowch yn y tiwb i'w brofi am 30 munud ac arhoswch am y canlyniad (bydd llinell liw yn ymddangos os yw'n positif)
8. Golchwch eich dwylo'n drylwyr ar ôl gwaredu'r prawf

Bob tro y bydd unigolyn yn cymryd prawf bydd angen iddo gofnodi'r canlyniad drwy'r porth canlyniadau ar-lein (y gellir cyrraedd ato drwy ffôn clyfar) neu drwy ffonio'r rhif a ddarperir yn y pecyn. Bydd angen gwneud hyn bob tro wrth gymryd prawf, boed yn ganlyniad negatif neu positif.

Mae yna feddalwedd 'Darllennydd Digidol' sydd yn darllen dyfeisiadau profi LFD yn rhan o'r gwasanaeth hunaingofnodi <https://www.gov.uk/report-covid19-result> Os ydych am dynnu llun er mwyn gwirio canlyniad eich prawf, cwblhewch y gwasanaeth hunaingofnodi gan ddilyn y cyfarwyddiadau perthnasol ar y sgrin.

### Ymateb i Ganlyniadau Prawf Llif Unffordd

Os yw'r canlyniad yn **positif** bydd angen i chi:

- gofnodi hyn drwy'r porth canlyniadau ar-lein. Argymhellir yn gryf bod disgyblion/dysgwyr yn gofyn am gymorth eu rhieni/gwarchodwyr.
- cadarnhau'r canlyniad positif drwy drefnu prawf PCR mewn canolfan brofi cyn gynted â phosibl. Gallwch drefnu prawf drwy archebu ar-lein neu drwy ffonio 119.
- ddilyn y canllawiau hunanynysu cyfredol a gwneud yn siŵr eich bod chi yn hunain ynysu tra'n aros am ganlyniad y prawf PCR. Bydd angen i chi hefyd roi gwybod i'ch ysgol, eich coleg neu'ch lleoliad. ~~Bydd y lleoliad yn rhoi gwybod i ymarferwyr / teuluoedd ac yn gofyn iddynt hunain ynysu wrth aros am ganlyniad y prawf PCR.~~ Mae'n bosib y bydd angen cau'r lleoliad dros dro yn y cyfnod hwn gan ddilyn y trefniadau cau'r lleoliad perthnasol os yw hyn yn effeithio ar y gyfradd staffio.
- Bydd angen i'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru



## Cylch Meithrin Meini Bach

### POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

#### ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

Os yw canlyniad y prawf PCR yn **negatif** gallwch ddod â'ch cyfnod hunanyysu i ben, ac aildechrau cymryd prawf ddwywaith yr wythnos **os** gymerwyd y prawf PCR o fewn 24 awr i'r prawf llif unffordd.

Os yw canlyniad y prawf yn **negatif**, bydd angen i chi gofnodi hyn drwy'r porth canlyniadau ar-lein ond ni fydd angen cymryd unrhyw gamau pellach a gallwch barhau â'ch diwrnod fel arfer. Rhaid cofnodi pob canlyniad.

#### Gwaredu Diogel o'r Profion Llif Unffordd

Unwaith y bydd eich prawf wedi'i gwblhau, rhowch holl gynnwys y pecyn prawf a ddefnyddiwyd yn y bag gwastraff a ddarperir.

Os yw eich canlyniad **positif** rhaid selio'r bag a'i cadw hwn mewn lle diogel am **72 awr**. Ar ôl y cyfnod hwn, rhowch yn y bag gwastraff domestig (fel arfer "bag du"). Gan eich bod yn unigolyn COVID positif yn hunanyysu o'r pwynt hyn ymlaen, yna mae'n ofynnol i chi sicrhau bod gwastraff sydd wedi bod mewn cysylltiad uniongyrchol â chi yn cael ei gadw am 72 awr cyn mynd i mewn i'r ffrwd gwastraff domestig.

Os oedd eich canlyniad yn **negyddol** neu'n **wag** gallwch gael gwared ar y bag gwastraff a ddarperir ar unwaith yn eich gwastraff domestig.

#### Cyflenwadau Profion Llif Unffordd COVID-19

Er mwyn cychwyn y broses o gynnig profion ar draws pob lleoliad, rhannodd Arolygiaeth Gofal Cymru y rhestr lawn o leoliadau gofal plant cofrestredig a oedd ar agor, gan gynnwys nifer y staff – a gofynnwyd am gyflenwad cychwynnol o dair wythnos. Mae hynny'n golygu na fydd lleoliadau gofal plant nad oeddent ar agor yn flaenorol wedi'u cynnwys ar yr amserlen gyflenwi bresennol.

- Bydd unrhyw leoliad gofal plant, nad oedd ar agor o'r blaen sydd bellach wedi agor ac wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru erbyn 24/2 i ofyn am brofion, yn cael ei ychwanegu at restr y dosbarthiad nesaf o brofion.

## POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

## ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

- Dylai unrhyw leoliad gofal plant sy'n dymuno cael ei ychwanegu at yr amserlen gyflenwi i dderbyn cyflenwadau yn y dyfodol gysylltu â [eduandcctesting@llyw.cymru](mailto:eduandcctesting@llyw.cymru)
- Mae system ar gyfer ailarchebu'n cael ei datblygu gan NHS Digital / DHSC a dylai fod ar gael i lleoliadau cyn hir. Bydd y system honno'n caniatáu i ysgolion a lleoliadau reoli proses ailarchebu eu hunain. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael maes o law.
- Dim ond os nad oes modd i'r lleoliad i ddefnyddio'r system ailarchebu pwrpasol, dylid annog ymarferwyr i archebu cyflenwadau drwy wefan [gov.uk](https://www.gov.uk) neu drwy eu casglu o'r [man casgu agosaf](#). Dylid adrodd canlyniadau'r profion hyn o fewn 24 awr.

**Hunainynysu**

Diweddarwyd canllawiau hunainynysu Cymru ar 7 Awst 2021. Yn gyffredinol, nid oes angen i blant o dan 18 oed nac oedolion sydd wedi cael y dos llawn (2 frechiad) o'r brechiad COVID-19 hunainynysu os ydynt wedi dod i gysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n positif (gan gynnwys aelodau eu cartref eu hunain). Fe fyddwch yn cael eich cynghori i gymryd profion PCR ar ddiwrnod 2 (ar ôl eich cysylltiad diwethaf â'r achos positif) a diwrnod 8. Mae profion PCR ar gyfer cysylltiadau agos – yn enwedig os yw'r cyswllt yn rhan o aelwyd – yn helpu i dorri'r gadwyn drosglwyddo mewn cymunedau ac yn diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed yn sgil y feirws.

Os oes gan blentyn neu oedolyn symptomau ei hun neu maent wedi profi'n positif, yna rhaid iddynt hunainynysu.

Er hynny, efallai y bydd amgylchiadau'n codi lle bydd plentyn neu oedolyn a fyddai fel arfer yn cael ei eithrio o hunainynysu yn cael cyfarwyddyd i'w wneud gan y gwasanaeth Profi, Orlhain a Diogelu. Bydd amgylchiadau o'r fath yn cael eu nodi gan Profi, Orlhain, Diogelu fesul achos, a rhaid dilyn eu cyfarwyddiadau.



## Cylch Meithrin Meini Bach

### POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

#### ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

### Cod Ymarfer

Bydd y Cylch Meithrin yn:

- archebu a chadw cyflenwadau o'r profion llif unffordd ar gyfer ymarferwyr y lleoliad.
- storio'r pecynnau profion dan do mewn lle sych lle nad yw'r tymheredd yn gostwng islaw 2 radd nac yn codi uwchlaw 30 gradd. Wrth gymryd a phrosesu'r profion, dylent fod ar dymheredd ystafell (tua 15 i 30 gradd).
- creu a chadw cofnod mewn perthynas â'r pecynnau profion, ynghyd â chofrestr i gofnodi'r pecynnau sy'n cael eu dosbarthu a rheoli'r cyflenwad. Mae templed ar gael yma [Published Assets \(assetbank-server.com\)](https://assetbank-server.com) i'w lawrlwytho.
- annog, ond nid gorfodi, pob ymarferydd i gymryd prawf llif unffordd rheolaidd (dwywaith yr wythnos). Yn ddelfrydol, ar yr un diwrnodau / amser bob wythnos.
- creu a chadw cofnod mewn perthynas a chanlyniadau'r profion. Mae templed ar gael yma [Published Assets \(assetbank-server.com\)](https://assetbank-server.com) i'w lawrlwytho.
- annog pob ymarferydd sydd yn cymryd prawf i gofnodi hyn drwy'r porth canlyniadau ar-lein yn amserol.
- disgwyl i bob ymarferydd sydd yn derbyn canlyniad positif i rhoi gwybod i'r lleoliad er mwyn medru hysbysu AGC. Bydd angen i'r unigolyn cadarnhau'r canlyniad positif drwy drefnu prawf PCR mewn canolfan brofi cyn gynted a phosibl. Gellir trefnu rhain ar-lein neu drwy ffonio 119.
- disgwyl i unigolion sydd yn derbyn canlyniad positif i ddilyn y canllawiau hunainynysu cyfredol, **a gwneud yn siwr ei bod nhw a phob aelod o'r aelwyd yn hunainynysu am 10 diwrnod.** Dylai'r cyfnod hwn ddechrau yn syth ar gael canlyniad prawf positif o'r prawf llif unffordd. Os yw canlyniad y prawf PCR yn negatiff gallwch ddod a'ch cyfnod hunainynysu i ben, ac aildechrau cymryd prawf llif unffordd dwywaith yr wythnos.



## Cylch Meithrin Meini Bach

### POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

#### ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

- disgwyl i unigolion sydd yn profi symptomau COVID-19 i drefnu prawf PCR cyn gynted a phosibl. Ni dylid defnyddio profion llif unffordd os oes gan yr unigolyn symptomau.
- disgwyl i unigolion sydd yn derbyn canlyniad prawf positif ddilyn y canllawiau hunainynysu cyfredol, a chyd-weithio gyda'r system Profi, Orlhain a Diogelu y GIG yn ôl yr angen.
- sicrhau bod yr asesiad risg yn nodi y bydd y lleoliad yn sicrhau bod pob ymarferydd, gan gynnwys unrhywrai sydd yn dewis peidio manteisio ar brofion llif unffordd, yn ymwybodol o'r angen i ddilyn gweithdrefnau diogelu arferol ar gyfer rhwystro lledaeniad y coronafeirws (e.e. gwisgo masg, golchi dwylo, ymbellhau cymdeithasol lle bo'n briodol).
- cadw data personol yn unol a'r datganiad preifatrwydd (Atodiad 1) yn y polisi hwn a gofynion y **Polisi GDPR**.

## POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

## ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

**ATODIAD 1- Datganiad Preifatrwydd: Profion COVID-19 ar gyfer Ymarferwyr mewn Lleoliadau Gofal Plant**

Perchenogaeth y Data Personol

Er mwyn i brofion COVID-19 allu cael eu cwblhau yn [**Enw'r Lleoliad Gofal Plant**], mae angen i ni brosesu data personol, gan gynnwys rhannu data personol lle y caniateir hyn o dan ddeddfwriaeth diogelu data. [**Enw'r Lleoliad Gofal Plant**] yw Rheolydd Data'r data sy'n eu hangen i reoli profion a rhoi trefniadau lleol ar waith os ceir canlyniad prawf positif.

Byddwn yn prosesu data personol sy'n ymwneud â staff o dan erthygl 6.1(f) o Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UK GDPR) – mae'r prosesu'n angenrheidiol er buddiannau dilys y rheolydd data. Byddwn yn prosesu data categori personol arbennig o dan ddarpariaethau erthygl 9.2(i) o UK GDPR, a Rhan 1 o Atodlen 1(3) i Ddeddf Diogelu Data 2018 lle mae sicrhau y gallwn leihau lledaeniad COVID-19 yn amserol er budd y cyhoedd am Resymau sy'n ymwneud ag Iechyd y Cyhoedd ac er mwyn ein galluogi i barhau i ddarparu gwasanaethau addysg mor ddiogel â phosibl. Caiff y data hyn eu prosesu o dan y rhwymedigaethau a nodir mewn deddfwriaeth ynglŷn ag Iechyd y Cyhoedd (Reoliadau 3(1) a (4) o Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd (Rheoli Gwybodaeth Cleifion) 2002) sy'n caniatáu i ddata gael eu rhannu at ddibenion sy'n ymwneud â COVID-19 a phan fyddant yn cael eu rhannu gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol **NEU** rywun sydd â dyletswydd gyfatebol i gadw'r data hynny'n gyfrinachol.

**Perchenogaeth y Data Personol rydych yn eu rhannu â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Bob tro y byddwch yn defnyddio prawf llif unffordd, bydd yn rhaid i chi gofnodi'r canlyniadau. Ceir rhagor o fanylion yma – - [Report a COVID-19 test result - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#). Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) yw rheolydd data'r wybodaeth rydych yn ei throsglwyddo iddi amdanoch chi a chanlyniadau eich profion. I gael rhagor o wybodaeth am y defnydd y mae'r Adran**



## Cylch Meithrin Meini Bach

### POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

#### ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei wneud o'ch data, gweler ei [Hysbysiad Preifatrwydd COVID-19](#)

Y lleoliad gofal plant yw Rheolydd Data'r data rydym yn eu cadw amdanoch er mwyn rheoli profion a rhoi trefniadau lleol ar waith os ceir canlyniad prawf positif o hyd.

Dylech ddarllen yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn a Hysbysiad Preifatrwydd COVID-19 yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn deall sut y defnyddir eich data personol cyn cael prawf.

Y Data Personol sydd dan sylw

Caiff y data personol canlynol eu prosesu gan y lleoliad gofal plant mewn perthynas â'ch prawf:

- Enw
- Cod unigryw a roddir i bob prawf unigol ac a ddaw'n brif rif cyfeirnod ar gyfer y profion.
- Canlyniad prawf

I gael rhagor o wybodaeth am y defnydd y mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei wneud o'ch data, gweler ei [Hysbysiad Preifatrwydd COVID-19](#)

Sut rydym yn storio eich gwybodaeth bersonol

Bydd y lleoliad gofal plant yn cadw cofnod o becynnau profion a fydd yn cofnodi eich enw a manylion y pecyn prawf a roddwyd i chi. Efallai y bydd y lleoliad gofal plant hefyd yn cofnodi Data Personol amdanoch yn ei gofrestr canlyniadau COVID-19 fewnol (ni chaiff cofrestr canlyniadau COVID-19 y lleoliad gofal plant ei rhannau â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol). Dim ond ar systemau diogel a reolir yn lleol ac sydd â rheolaethau mynediad priodol yn y lleoliad gofal plant y caiff y wybodaeth hon ei storio a dim ond personél sy'n ymwneud â rheoli profion a rhoi trefniadau lleol ar waith os ceir canlyniad prawf positif fydd yn gallu ei gweld.

Bydd y lleoliad gofal plant yn cadw ei gofnod o becynnau profion a'i gofrestr o ganlyniadau COVID-19 am gyfnod o 12 mis o ddyddiad yr eitemau olaf a gofnodwyd ynddynt gan y lleoliad gofal plant.

## POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

## ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

I gael rhagor o wybodaeth am y defnydd y mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei wneud o'ch data, gweler ei [Hysbysiad Preifatrwydd COVID-19](#)

Prosesu Data Personol sy'n Ymwneud â Chanlyniadau Prawf Positif

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i roi ein prosesau ynysu a rheoli COVID-19 ar waith heb ddweud wrth unrhyw un pwy sydd wedi cael canlyniad prawf positif.

I gael rhagor o wybodaeth am y defnydd y mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ei wneud o'ch data, gweler ei [Hysbysiad Preifatrwydd COVID-19](#)

Cedwir y wybodaeth hon am 12 mis gan y lleoliad gofal plant ac am wyth mlynedd gan y GIG.

Prosesu Data Personol sy'n Ymwneud â Chanlyniadau Prawf Negatif a Di-rym

Byddwn yn cofnodi canlyniad negatif a di-rym at ddibenion rheoli stociau o brofion a pherfformiad cyffredinol y broses brofi.

Partneriaid Rhannu Data

Caiff y data personol sy'n gysylltiedig â chanlyniadau profion eu rhannu â'r canlynol:

- Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, GIG Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn sicrhau y gallant gynnal y gweithgareddau Profi Olrhain Diogelu angenrheidiol a gwneud ymchwil a chasglu gwybodaeth ystadegol am y Coronafeirws.
- Eich meddyg teulu – efallai y bydd y GIG yn rhannu'r wybodaeth a ddarperir gennych â'ch meddyg teulu er mwyn iddo gynnal eich cofnodion meddygol a chynnig cymorth ac arweiniad yn ôl yr angen. Ni chaiff unrhyw ddata a roddir gennych i'r lleoliad gofal plant eu rhannu â'ch meddyg teulu.
- Llywodraeth Leol er mwyn iddi gyflawni dyletswyddau lleol o ran iechyd y cyhoedd a chofnodi a dadansoddi lledaeniad y feirws mewn ardaloedd lleol.

Caiff Data Personol yng nghofnod pecynnau profion y lleoliad gofal plant eu rhannu â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol er mwyn iddi nodi pa becyn prawf a roddwyd i ba unigolyn os bydd angen adalw cynnyrch. Ni fydd y lleoliad gofal plant yn rhannu ei gofrestr canlyniadau COVID-19 fewnol â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.



## Cylch Meithrin Meini Bach

### POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

#### ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

Eich Hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych hawliau gan gynnwys:

**Eich hawl i weld gwybodaeth** – Mae gennych hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch gwybodaeth bersonol.

**Eich hawl i gywiro gwybodaeth** – Mae gennych hawl i ofyn i ni gywiro gwybodaeth bersonol y credwch ei bod yn anghywir. Mae gennych hawl hefyd i ofyn i ni gwblhau gwybodaeth y credwch ei bod yn anghyflawn.

**Eich hawl i ddileu gwybodaeth** – Mae gennych hawl i ofyn i ni ddileu eich gwybodaeth bersonol o dan amgylchiadau penodol.

**Eich hawl i gyfyngu ar brosesu gwybodaeth** – Mae gennych hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich gwybodaeth bersonol o dan amgylchiadau penodol.

**Eich hawl i wrthwynebu prosesu gwybodaeth** – mae gennych hawl i wrthwynebu prosesu eich gwybodaeth bersonol o dan amgylchiadau penodol.

**Eich hawl i gludadwyedd data** – Mae gennych hawl i ofyn i ni drosglwyddo'r wybodaeth bersonol y gwnaethoch ei rhoi i ni i sefydliad arall, neu i chi, o dan amgylchiadau penodol.

Nid oes angen i chi dalu unrhyw dâl am arfer eich hawliau. Os byddwch yn gwneud cais, bydd gennym un mis i ymateb i chi.

Cysylltwch â ni yn [nodwch gyfeiriad e-bost, rhif ffôn a/neu gyfeiriad post Swyddog Diogelu Data'r lleoliad gofal plant] os hoffech wneud cais.

Sut i gwyno

Os bydd gennych unrhyw bryderon am y ffordd rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, gallwch gyflwyno cwyn i ni [Nodwch fanylion cyswllt y sefydliad ar gyfer ymholiadau ynglŷn â diogelu data].

Gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth os na fyddwch yn fodlon ar y ffordd rydym wedi defnyddio eich data.

Cyfeiriad Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:



## Cylch Meithrin Meini Bach

POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

Information Commissioner's Office

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Cheshire

SK9 5AF

Rhif y llinell gymorth: 0303 123 1113



## Cylch Meithrin Meini Bach

POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

**ATODIAD 2 - *Llythyr templed i'w rannu â'r ymarferwyr yw hwn. Gallwch ei addasu i'ch lleoliad yn ôl yr angen.***



### **Dyddiad**

Oddi wrth Arweinydd y Cylch Meithrin at Aelodau o'r Staff / Ymarferwyr **Cylch Meithrin Meini Bach**

Profi Olrhain Diogelu GIG Cymru: Profion COVID-19 ar gyfer Ymarferwyr  
Blynyddoed Cynnar

Annwyl **Gydweithiwr**,

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd yn dechrau rhaglen o brofion COVID-19 asymptomatig mewn lleoliadau gofal plant ledled Cymru.

Ynghyd â'r mesurau diogelu sylfaenol rydym yn eu rhoi ar waith, megis cadw pellter cymdeithasol a hylendid dwylo da, bydd y profion yn ein galluogi i gymryd camau pellach i'ch helpu chi ac aelodau eraill o'r staff i barhau i weithio mewn amgylchedd sydd mor ddiogel â phosibl. Nid oes gan hyd at un o bob tri unigolyn sydd wedi'u heintio â COVID-19 unrhyw symptomau ac, felly, gallent fod yn trosglwyddo'r feirws heb yn wybod iddynt.

Er mwyn mynd i'r afael â'r pandemig mae angen adnabod unigolion heintus asymptomatig. Mae profion Dyfais Llif Unffordd (LFD) wedi'u defnyddio'n helaeth ac yn llwyddiannus i ganfod COVID-19 mewn unigolion asymptomatig. Mae cyflymder a chyfleuster profion LFD yn helpu i ganfod y feirws mewn unigolion asymptomatig na fyddent, fel arall, yn cael eu profi. Maent wedi'u cymeradwyo'n glinigol ac maent yn hollbwysig yn y frwydr yn erbyn y feirws.

Am fod y profion yn fwy sensitif gyda llwythi feirysol uwch, mae risg y ceir canlyniad negatif i brawf pan fo llwythi feirysol yn isel (e.e. ar gamau cynnar haint). Dyna pam yr argymhellir y dylid cynnal dau brawf LFD gyda blwch o 3-4 diwrnod rhyngddynt,

## POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

## ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

neu brofion rheolaidd, er mwyn gwella cyfraddau canfod drwy nodi unrhyw achosion na chawsant eu canfod yn ystod y prawf cyntaf ac unrhyw heintiau newydd.

Os byddwch yn cael canlyniad prawf positif gan ddefnyddio LFD, mae'n debygol y byddwch yn heintus ar yr adeg honno, a bydd yn rhaid i chi hunanynysu a threfnu prawf adwaith cadwynol polymerasau (PCR). Caiff y broses olrhain cysylltiadau ei sbarduno yn dilyn canlyniad positif i brawf LFD a bydd angen i'ch cysylltiadau agos hunanynysu nes i chi gael canlyniad eich prawf PCR. Os bydd canlyniad y prawf PCR yn positif bydd yn rhaid i chi a'ch cysylltiadau agos hunanynysu. Ni ddylid ystyried bod canlyniad negatif i brawf LFD yn fodd i lacio neu anwybyddu'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol na mesurau atal haint eraill y bwriedir iddynt leihau'r risg o drosglwyddo'r feirws. Mae prawf LFD yn adnodd ychwanegol sy'n cyfrannu at leihau'r risg honno.

Sut mae'r profion yn gweithio.

Os byddwch yn cytuno i gymryd rhan, gallwch gasglu pecynnau profion LFD o'ch gweithle (ysgol, coleg, lleoliad gofal plant) a fydd yn eich galluogi i hunan-brofi gartref. Bydd angen rhoi trefniadau ychydig yn wahanol ar waith ar gyfer gwarchodwyr plant, a allai gynnwys casglu profion o leoliad canolog yn eu hardal. Byddech yn cynnal y prawf, cyn dod i'r gwaith, ddwywaith yr wythnos. Nid oes angen i'r profion LFD a ddarperir gael eu prosesu mewn labordy a gallant roi canlyniad cyflym mewn tua 30 munud. Ceir canllawiau cynhwysfawr ar hunan-brofi yn y daflen 'Cyfarwyddiadau ar Sut i'w Ddefnyddio' sy'n dod gyda'r pecyn prawf. Ceir rhagor o adnoddau a chanllawiau ar Lwyfan Dogfennau Ar-lein Llywodraeth Cymru y mae gennym ni, fel lleoliad, fynediad iddo.

Ar ôl i'r prawf gael ei gynnal, byddwch yn cofnodi canlyniad y prawf ar-lein yn [www.gov.uk/report-covid19-result](http://www.gov.uk/report-covid19-result) a bydd angen i chi hefyd ein hysbysu ni, fel eich lleoliad, ar wahân, am ganlyniad y prawf. Byddwch hefyd yn cael hysbysiad [drwy neges destun/e-bost] o ganlyniad positif neu negatif gan wasanaeth Profi ac Orlhain y GIG. Mae'r profion am ddim ac fe'u darperir gan y lleoliad.



## Cylch Meithrin Meini Bach

### POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

#### ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

#### Cydsyniad/Preifatrwydd

Unwaith y byddwch wedi deall y broses profi ac wedi darllen yr hysbysiad preifatrwydd, os byddwch yn dewis cymryd rhan, byddwch yn ymrwmo i gynnal y prawf eich hun a darparu eich canlyniadau. Dylai lleoliadau sicrhau bod staff yn darparu eu canlyniadau (positif, negatif neu ddi-rym) i wasanaeth Profi ac Olrhain y GIG drwy dudalen hunangofnodi gov.uk. Dylid rhannu'r canlyniadau â'r lleoliad hefyd er mwyn cefnogi prosesau olrhain lleol.

Gyda'n mesurau diogelu sylfaenol a'n profion, byddwn yn helpu i leihau lledaeniad COVID-19 mewn lleoliadau addysg a gofal plant. Felly, rwy'n annog pob aelod o staff yn gryf i gael y profion. Fodd bynnag, gall aelodau o'r staff sy'n gwrthod cymryd rhan ddod i'w gweithle neu eu lleoliad o hyd os na fydd ganddynt symptomau.

Dylai pobl sy'n gwrthod cymryd rhan yn y rhaglen profi hon ddilyn y canllawiau cenedlaethol arferol ar hunanyngysu a dylai unrhyw un gael prawf os bydd yn dangos symptomau.

Byddwn yn cefnogi ein staff bob amser ond rhowch wybod i ni os bydd gennych unrhyw gwestiynau.

Yn gywir,

**[Arweinydd y Lleoliad]**


## POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

### ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

#### ATODIAD 3 – Siart Llif Profi Cyson mewn Lleolaidau Addysg a Gofal (PHW-version 03.03.2021)

#### Regular Testing Process for Education and Childcare Staff


This process applies to staff working in education, registered childcare and play settings who are participating in regular testing programmes for people who are well and do not have symptoms of COVID-19. To maximise the benefit of testing in minimising transmission, morning testing prior to staff attending work is preferred on Monday and Wednesday or Thursday.



SUP-025 Public Health Wales  
04032021

## POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

### ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY





## Cylch Meithrin Meini Bach

POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

Note: the information in this Policy is based on the Welsh Government documents that be found here: [Published Assets \(assetbank-server.com\)](https://assetbank-server.com)

**A Welsh language version of this policy is available. If there is any ambivalence about the wording of the policy, the Welsh language version is always the correct copy.**

**Cylch Meithrin Meini Bach** follows this policy and guideline pack, reviews it annually and updates it as required.

The **leader** of **Cylch Meithrin Meini Bach** will ensure that every member of staff understands this policy.

**Cylch Meithrin Meini Bach** will ensure that parents and carers and the local authority are aware of this policy by taking the following steps:

1. Policy will be placed on the **Cylch Meithrin** website.
2. Place policy in the entrance or where people are able to view it.

### REVIEWED BY

### DATE

(Name)

(Signature)

(Date)

Mari Hannah Lanchbury

M.LANCHBURY

15/06/22

*(It is suggested that you review your policy annually and notify CIW of any changes you make.)*



## Cylch Meithrin Meini Bach

POLISI PROFION ASYMPTOMATIG AR GYFER COVID-19

ASYMPTOMATIC COVID-19 TESTING POLICY

### **Background**

